

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Elephant Chemicals (haf 1969)

Cyfwelai: VN034 Merfyn Wyn Tomos
Dyddiad: 05: 08: 2014
Cyfwelydd: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Cadarnhaodd Merfyn ei enw, ei gyfeiriad a'i ddyddiad geni, sef 18/03/1950.

Ganwyd yn Nolgellau, roedd teulu Merfyn yn rhannol o'r dre a Bont-ddu; plymwr oedd ei dad. Aeth o I'r ysgol yn Nolgellau. Mae gynno fo frawd a chwaer ac roedd ei mam yn ffermio, gofalu am fferm ei daid. Roedd Merfyn yn helpu ar y fferm hefyd ond roedd yn well gynno fo fynd am dro efo llyfr, ac roedd ei frawd yn gwneud mwy ar y fferm.

Gadawodd o'r ysgol yn 18 oed yn 1969 gyda'r bwriad o wneud gradd yn y coleg a dilyn gyrfa mewn llyfrgellyddiaeth. Roedd o wrth ei fodd yn darllen llyfrau ac roedd gynno fo ewythr a oedd yn llyfrgellydd ac yn ddylanwad mawr arno. **Ar ôl gadael yr ysgol roedd o eisiau swydd haf er mwyn ennill tipyn o bres poced.** Roedd ffrind gynno fo eisiau gwneud yr un peth ac wedi cael lle yn ffatri *Elephant Chemicals* yn y Bermo, a oedd yn chwilio am bobl dros dro. Felly, cysylltodd Merfyn efo nhw a chafodd o swydd am yr haf, fel 'casual.'

Dydy o ddim yn cofio cyfweliad ffurfiol, dim ond mynd yno a gweld rhyw ddynes 'digon clên' o'r enw Mrs Smith. Roedd gan ei ffrind, Elwyn, gar ac roedd criw ohonynt yn mynd o Ddolgellau i weithio yn y ffatri. **Mae'n cofio'r olwg gyntaf - peiriannau a waliau brics efo sglein arnyn nhw, yn edrych fel rhyw warws, gyda merched efo ffedogau a chotiau a rhai efo sgarffiau ar eu pennau.** Merched oedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr ond roedd nifer fach o ddynion yn gwneud pethau fel trwsio peiriannau, yn ogystal â bechgyn i lenwi'r loris efo'r deunydd a oedd yn cael ei anfon i ffwrdd. **Roedd tipyn o dynnu coes yno gan fod llawer o'r gweithwyr yn ifanc er mai lle bach iawn oedd e, gydag ugain neu bump ar hugain o weithwyr.** Hen adeilad wedi'i addasu oedd y ffatri, mae'n debyg.

Roedd Elwyn yn byw yn Rhydymain ac oedd Merfyn yn cwrdd â fo ar ben y bont, cyn i'r ffordd osgoi cael ei hadeiladu. Mae'n meddwl bod chwech o Ddolgellau yn gweithio yn y ffatri a 4-5 ohonynt yn mynd efo Elwyn yn y car. Roedd pawb yn glên iawn yno, meddai, a doedd dim gwahaniaeth rhwng y ffordd roedd y bobl dros dro yn cael eu trin. Dim ond un dyn, a oedd yn gyfrifol am lenwi deunydd i mewn i loris i fynd ar y trê, oedd yn gallu fod yn gas. Roedd hwnnw'n rhyw fath o fforman.

Gwaith Merfyn oedd creu'r blociau arogl da ar gyfer toiledau, allan o bowdwr gwyn a oedd yn cyrraedd mewn bagiau eithaf trwm. Roedd y rhain yn mynd i do'r adeiladau, lle roedd to gwydr ac roedd y powdwr yn mynd lawr *chute*. Yn yr haf, roedd hi'n boeth iawn yno, ac roedd Merfyn yn gwneud hyn mwy na neb arall. Peth arall oedd cael ei wneud yno oedd *polish*, mewn tuniau crwn, ac os oedd na wrych yn y *polish*, roedd yn rhaid ei dynnu fo allan o'r tin a'i ail-wneud e, ac weithiau os oedd y *polish* yma ddim digon da, byddai bwced llawn ohono ac roedd rhaid i Merfyn cael gwared ohono, ei gario o i lawr i dir gwastad ar waelod y rheilffordd. Byddai hyn yn hollol annerbyniol heddiw, ond y dyddiau hynny, doedd neb yn meddwl ddwywaith am y peth.

15.30 Ffatri yn gwneud cemegion oedd hi, yn gwneud y blociau ar gyfer y toiledau, *disinfectant*, *polish* ac *air fresheners*. **Roedd y gweithwyr haf yn gwneud y topiau gwyn ar gyfer y rheiny.** Roedd tanc mawr yn y pen draw efo hanner can galwyn o ddŵr ynddo (?). Roedd y stwff yn cael ei werthu tramor hefyd, gan fod Merfyn yn cofio tuniau efo ysgrifen Arabaidd arnynt. Mae'n cofio paratoi deunydd a oedd yn mynd i Cypres, ac yn gorfod rhoi capiau metal arnynt, yn lle eu rhoi nhw mewn bocsys fel oedd yr arfer i ddeunydd a oedd yn mynd i lefydd yn yr UK. Mae'n cofio'r poteli o disinfectant yn cael eu gwerthu mewn siopau fel *Woolworths* ond dydy o ddim yn meddwl bod yr enw '*Elephant*' arnynt. Ond mae'n cofio'r arogl o binwydd a lemwn.

Roedd y stwff yn dod i Bermo ar y trê'n a doedd yr iard ddim yn bell, ac roedd na ryw fynediad ar ochr yr adeilad i ddod â'r stwff i mewn o'r loris. **Roedd dynion y ffatri yn gwneud y gwaith trwm yma, ddim y merched na'r gweithwyr ifanc; roedden nhw'n gwneud yr un math o waith â'r menywod. Sefyll i fyny oedd Merfyn i wneud ei waith, hyn yn dibynnu ar y gwaith.** Roedd ysgrifenyddes a chyfrifydd hefyd yn y swyddfa lan grisiau, ac roedd y bobl hynny yn dod i Bermo ar y trê'n. Doedd dim cantîn yno ond roedden nhw'n cael brêc yn y bore tua deg o'r gloch a thri o'r gloch yn y prynhawn, ac oedd y gweithwyr yn cael mynd allan o'r ffatri, i fyny i'r stryd fawr, i gaffi o ddau lawr. **Roedden nhw'n mynd i fyny i'r ail lawr, mewn criw, lle roedd golygfa braf a ffenestri mawr. Roedden nhw'n cael poteli o Coca-cola neu rywbeth a rhyw '*individual fruit pie*' mewn bocsbach. Roedd un o'r pies yma yn y bore ac un arall yn y prynhawn yn ei gadw fo i fynd;** mae'n debyg ei fod o'n mynd yno amser cinio hefyd ond dydy o ddim yn cofio, ond doedd o ddim yn mynd â bwyd efo fo. Doedd y ffatri ddim yn rhoi dim te na choffi i'r gweithwyr, roedd pawb yn mynd allan. Roedd y gweithwyr haf yn tueddu mynd mewn criw efo'i gilydd, efallai fod hyn achos yr amser yr oeddent yn ei gael ar gyfer eu brecs. Doedd dim llawer o'r gweithwyr hyn ac roeddent yn cael llai o dâl.

25.00 Roedd Merfyn yn gweithio rhwng 8.00 a 5.30, ond yn ôl ei ffrind Elwyn, gweithio tan 6 yr oeddynt. Doedd dim rhaid iddynt weithio ar ddydd Sadwrn ond roedd yn rhaid iddynt aros yn hwyrach os oedd rhyw pwysig wedi dod i mewn yn y prynhawn. Dydy o ddim yn cofio ei gyflog, ond dydy o ddim yn meddwl ei fod o'n llawer. **Ond dim ond pres poced i allu mynd allan, prynu dillad ayyb oedd Merfyn eisiau beth bynnag.** Doedd o ddim yn gwybod beth oedd y gweithwyr parhaol yn ei ennill.

Dydy o ddim yn gwybod beth oedd sefyllfa'r undeb yno a doedd o ddim yn ymwybodol o'r fath beth yn yr oedran hwnnw "doedd o ddim ar fy radar." O ran y gwaith, roedd o'n gallu bod yn hir, meddai, ond nid yn ormodol. **Y gwaith mwyaf annifyr oedd codi'r bagiau trwm a rhoi'r powdwr lawr y *chute* i wneud y blociau toiled. Roedd hyn yn y to ac yn gynnes iawn, roedd o'n chwysu, yn llosgi braidd, achos roedd to gwydr yno.**

O ran diogelwch ac iechyd, dydy o ddim yn cofio bod llawer o reolau, ac yn sicr roedd y to gwydr yn anghyfforddus iawn i weithio oddi tano. **Doedd dim mwgwd na hetiau na menig.** Roedd 'na arogl arbennig yno, meddai, a doedd dim lle i ymolchi. Pan gyrraeddai adre, y peth cyntaf oedd mynd i ymolch. Dydy o ddim yn cofio damweiniau yno ond mae wedi clywed sôn bod rhywun

wedi'i losgi wrth weithio efo'r *polish*.

Cafodd o dipyn o hyfforddiant pan oedd o'n dechrau. Roedd y rheolwyr yn ddigon teg. Ac roedd 'na ryw fath o deimlad bod pawb yn gwybod beth roeddent yn ei wneud, ac os oedd y rheolwr yn dod, roeddech chi'n bihafio, yr un fath â phan oedd y prifathro yn cyrraedd yn yr ysgol. Roedd pobl yn gallu siarad wrth eu gwaith ond dydy o ddim yn cofio radio.

Saesneg oedd iaith y ffatri yn bennaf, er bod y gweithwyr haf yn siarad Cymraeg achos mai Cymry oeddent. Roedd pobl Bermo yn siarad Saesneg ac roedd awyrgylch Seisnig yno, roedd y bos yn Sais a'r *mechanic* hefyd, er bod yr ysgrifenyddes yn Gymraes. Doedd hyn ddim yn golygu llawer iddo bryd hynny achos mai hogyn ysgol oedd o mewn ffordd.

Fel profiad cyntaf o waith, roedd yn trio creu perthnas efo'i gydweithwyr, fel y ddwy ferch a oedd yn dod gyda'r trê, - cwmni bach diniwed. Roedd o yno tan ar ôl i'r ysgol gau tan ddiwedd mis Medi. Roedd o'n lwcus i gael gwaith yn ystod yr haf, pan oedd o yn yr ysgol, yn y 6ed dosbarth. Mae'n dal mewn cysylltiad efo Elwyn a bachgen arall oedd yn gweithio yno “**Er ei fod o'n gyfnod byr roedden ni gymaint efo'n gilydd i greu cyfeillgarwch bach.**”

Mae'n cofio un bore roedd y gweithwyr a oedd yn mynd yng nghar Elwyn yn siarad, ar ddiwrnod braf, ac yn penderfynu ei bod hi'n diwrnod rhy braf i weithio, felly aethon nhw i Harlech am y bore, a dychwelyd yn y prynhawn. Yn y cyfamser, roedd 'na ryw fath o *hue and cry* gan fod y gweithwyr ddim wedi troi i fyny a heb adael iddynt wybod, ac roedden nhw ar fin gysylltu â'r heddlu.

Roedd yn brofiad i gyfarfod â phobl, meddai, ac roedd o'n ddigon hapus i fod yno. **Roedd o wedi dysgu i fod yn fwy disgybledig nag oedd o cynt, i orffen tasg a dim ei gadael hi, wedi rhoi rhyw fath o batrwm iddo a nawr mae bob amser eisiau gorffen ei waith cyn diwedd y dydd.** Dydy o ddim yn siŵr os mai'r ffatri oedd wedi rhoi hynny i gyd iddo ond roedd yn help.

Hyd: 45 munud

English summary

Elephant Chemicals (Summer of 1969)

Interviewee: VN034 Merfyn Wyn Tomos

Date: 05: 08: 2014

Interviewer: Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales

Merfyn was born on 18th March, 1950 in Dolgellau and went to school there. His family were from the town and Bont-ddu and his father was a plumber. He had a brother and a sister and his mother farmed his grandfather's farm. Merfyn helped on the farm even though he would prefer going for a walk and taking a book with him.

He left school when he was eighteen in 1969 with the intention of going to college to do a degree in librarianship. He loved reading books and had an uncle who was a librarian who influenced him greatly. **After leaving school Merfyn and his friend Elwyn were keen to get holiday jobs to earn some pocket money.** He got in touch with Elephant Chemicals and got a summer job with them.

He doesn't remember having a formal interview but spoke to a nice woman called Mrs Smith. **His first impressions of the factory were machines and shiny brick walls. It looked like a warehouse and there were women there wearing aprons, coats and scarves on their heads.** The majority of the workers were women although there were a few men there doing jobs like fixing the machines. There were also boys there loading lorries with the material that was being sent away. **There was a lot of leg pulling there as many of the work force were young. They were twenty to twenty five altogether, and the factory was an old building that had been adapted.**

Elwyn had a car and drove them to work from Dolgellau. Elwyn lived in Rhydymaen and Merfyn would meet him on the bridge (before the by-pass was built.) There were six people from Dolgellau working in the factory, Elwyn would give four or five of these a lift. Everybody there was very friendly apart from one foreman who loaded the lorries who could be nasty.

Merfyn's work was making the toilet blocks out of a white powder which would arrive in heavy bags. These would be sent up to the glass roof and the powder would travel down a chute. It was very hot there in the summer. The factory also made polish, which came in round tins. If there was a wrinkle in the polish it had to be re-done. Merfyn would take the polish that didn't make the grade in a bucket down to some waste land near the railway and dump it. This would be totally unacceptable today.

15.30 It was a chemical factory. As well as the toilet blocks and polish it made disinfectant and air fresheners. **The summer workers made the white tops for them.** The products were sent to countries like Cyprus and others further afield. Merfyn remembers seeing the Arabic writing on them. The bottles of disinfectant were sold in shops like Woolworths but didn't bear the Elephant name. He remembers the smell of pine and lemon.

The material was transported to Bermo by train. The yard was nearby and there was a side entrance to bring it in from the lorries. **The men in the factory did this heavy work rather than the women or young workers. Merfyn stood up to do his work.** There was a secretary and an accountant working in the office upstairs and they travelled to Bermo by train. There was no canteen so when they had a break at ten o'clock and three o'clock the workers would go outside, up to the high street, to a two-storey cafe. A gang of them would go up to the second floor where there were large windows with good views. They would have bottle of Coke and an individual fruit pie. One of these in the morning and one in the afternoon was enough to keep him going. He also went there at lunch times. The factory didn't provide tea or coffee so everyone went out.

25.00 Merfyn worked from eight until half past five (but Elwyn said they worked until six o'clock.) They didn't have to work Saturdays but had to work on if an important order came in during the afternoon. He didn't know if there was a union there – it wasn't on his 'radar'. **The most difficult work was lifting the heavy bags and putting the powder down the chute to make the toilet blocks. He would sweat a lot because of the heat in the glass roof.**

There weren't many health and safety rules. **There were no masks, hats or gloves.** There was a particular smell there and nowhere to wash. The first thing he would do when he got home was

wash. He doesn't remember any accidents but heard that somebody had sustained a burn working with the polish.

He received a considerable amount of training when he started and the managers were fair. The feeling was prevalent that everybody knew what they were doing. They were allowed to chat as they did their work and if the managers came round everybody behaved as if a headmaster had arrived.

English was the main language of the factory and it was an English atmosphere, even though the summer workers were mainly Welsh speakers. The boss and the mechanic were English but the secretary was Welsh.

He made an effort to get on with the two girls he worked with. He was there from the end of term to the end of September. He is still in contact with Elwyn and another man who worked there. **“Even though we'd been together for such a short period we we spent alot of time together and had built up a friendship.”**

He remembers travelling to work with Elwyn one fine day when they decided that the weather was too nice for them to go to work, so they went to Harlech for the morning. In the meantime there had been a hue and cry in work because they hadn't turned up and they were about to call the police.

He enjoyed meeting people at the factory and was happy to work there. **It taught him to be more disciplined than before, to finish a task rather than leave it, and gave him a work pattern to follow so that now he always wants to finish his work before the end of the day.**

Duration: 45 minutes